# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ebrill 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

# Hybrid

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

**Dogfennau atodol:**

## 2 Ymchwiliad undydd i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16: Sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau addysg a hyfforddiant ôl-16 (1)

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 21)

Dafydd Evans, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Llandrillo Menai, yn cynrychioli ColegauCymru

Lisa Mytton, Cyfarwyddwr Strategol Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Dr Ioan Matthews, Prif Swyddog Gweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Briff ymchwil

Ymatebion i'r ymgynghoriad

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Ymateb Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i'r ymgynghoriad

(Saesneg yn unig)

Ymateb y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r ymgynghoriad

## Egwyl

(10.30 - 10.40)

## 3 Ymchwiliad undydd i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (2)

(10.40 - 11.15) (Tudalennau 22 - 23)

Dona Lewis, Prif Swyddog Gweithredol

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i'r ymgynghoriad

## 4 Papur(au) i'w nodi

(11.15)

**Dogfennau atodol:**

### 4.1 Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi

(Tudalennau 24 - 25)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru: Darparu rhagor o wybodaeth am gymorth pontio wedi'r Adolygiad Buddsoddi i aelodau sy'n gadael y Portffolio - 7 Mawrth 2024

### 4.2 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

(Tudalennau 26 - 37)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr wedi'i gopïo er gwybodaeth gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol - 8 Mawrth 2024

Llythyr wedi'i gopïo er gwybodaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,

Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad at y Prif Weinidog: Cais i egluro materion yn ymwneud â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol - 15 Mawrth 2024

Llythyr wedi’i gopïo er gwybodaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Ddigidol: Cais i egluro materion yn ymwneud â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol - 15 Mawrth 2024

**4.3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(Tudalen 38)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr wedi’i gopïo er gwybodaeth gan Weinidog yr Economi at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad: Darparu crynodeb o'r trafodaethau yn chweched cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 6 Mawrth 2024 - 12 Mawrth 2024

**4.4 Cyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru**

(Tudalennau 39 - 47)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth wedi’i chopïo er gwybodaeth gan Jamie Medhurst, Athro Ffilm a'r Cyfryngau, Prifysgol Aberystwyth at y Prif Weinidog: Codi pryderon am doriadau i'r sector Diwylliant - 8 Mawrth 2024

Llythyr at Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Cais am wybodaeth ar effaith Cyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru - 13 Mawrth 2024

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Gwahodd sylwadau i lywio gwaith craffu yn y dyfodol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru - 22 Mawrth 2024

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol: Darparu gwybodaeth am effaith Cyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru - 4 Ebrill 2024

**4.5 Model cyllido cylchgronau Cyngor Llyfrau Cymru**

(Tudalennau 48 - 51)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gwen Davies, Golygydd New Welsh Review: Codi pryderon am weinyddiaeth Cyngor Llyfrau Cymru o ran grantiau cyhoeddi ar gyfer cylchgronau Saesneg - 19 Mawrth 2024 (Saesneg yn unig)

**4.6 Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru**

(Tudalennau 52 - 53)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth gan Abi Tierney, Prif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru: Cynghori penodi Prif Swyddog Ariannol newydd - 21 Mawrth 2024 (Saesneg yn unig)

**4.7 Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol**

(Tudalennau 54 - 55)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Goldsmith KC, Cadeirydd y Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol: Copïau o lythyrau er gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y cynlluniau i gadarnhau'r Confensiwn - 25 Mawrth 2023

**4.8 P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza**

(Tudalennau 56 - 57)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr wedi'i gopïo er gwybodaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Cais i egluro materion yn ymwneud â Deiseb P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza - 23 Chwefror 2024

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(11.15)

**Dogfennau atodol:**

## 6 Ymchwiliad undydd i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16: Trafod y dystiolaeth

(11.15 - 11.30)

**Dogfennau atodol:**

## 7 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer haf 2024 (2)

(11.30 - 12.00) (Tudalennau 58 - 73)

Blaenraglen waith ddrafft

Cylch gorchwyl drafft ar gyfer ymchwiliad i'r diwydiant gemau fideo

**Dogfennau atodol:**

Blaenraglen waith ddrafft

Cylch gorchwyl drafft ar gyfer ymchwiliad i'r diwydiant gemau fideo

## 8 Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad: Trafod yr adroddiad drafft (2)

(12.00 - 12.10) (Tudalennau 74 - 96)

Adroddiad drafft

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**DWLP11**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol** | **Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 |Development of post-16 Welsh language provision**

Ymateb gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru | Evidence from National Training Federation for Wales

Response to the impact of a flat budget for Welsh learners in post-16 education

Funding plays a crucial role in shaping the landscape of Welsh language learning among young people. Adequate funding allows educational institutions to provide essential resources, such as textbooks, teaching materials, and language-specific software.

It enables schools and colleges to offer specialised language courses, workshops, and extracurricular activities that enhance language skills. Teacher training and recruitment funding supports professional development for teachers, work-based assessors etc ensuring they are well-equipped to teach Welsh effectively. It encourages recruitment of skilled Welsh language educators for example with training for existing staff.

The support of Coleg Cymraeg Cenedlaethol helps with a plethora of support including work-based assessor training and support, advice and guidance, promotion and awareness, facilitates promotional campaigns to raise awareness about the benefits of learning Welsh. This can encourage participation in language events, competitions, and cultural festivals.

They also support with infrastructure and facilities as funding contributes to creating language-friendly environments within Post 16 educational institutions, for example digital platforms and multimedia resources which enhance learning experiences.

Most Important is sustainable funding ensures continuity of Welsh language programs from primary to post-16 education, it prevents program cuts due to budget constraints.

Specifically for Post-16 courses and career prospects, adequate funding for post-16 Welsh language courses encourages learners to continue their language journey. It opens doors to Welsh-medium higher education and career opportunities. Funding has helped support producing bilingual resources for vocational courses preparing students for specific professions.

The Cymraeg 2050 strategy, with its ambitious goal of reaching one million Welsh speakers by 2050, relies heavily on various factors, including funding decisions related to post-16 Welsh language provision.

Adequate funding ensures the continuity and expansion of Welsh language provision beyond secondary education, again for the private independent providers with support from Coleg Cymraeg Cenedlaethol and awarding organisations etc funding supports robust post-16 programs, more learners will continue their language journey, contributing to the overall trajectory and increased participation in post-16 Welsh language apprenticeships aligns with the goal of nurturing fluent speakers.

Monitoring and adaptation, funding decisions impact monitoring mechanisms and regular assessment informs adjustments to achieve targets thus ensuring progress toward the one million speaker's goal.

In summary, strategic funding positively impacts young people's Welsh language learning experiences, influences their choices regarding medium of instruction, and contributes to a vibrant Welsh-speaking community in Wales, funding decisions significantly influence the trajectory of Cymraeg 2050. Strategic allocation can propel Welsh language growth, while inadequate funding may hinder progress. The Welsh Government's commitment to sustaining and expanding Welsh language provision remains pivotal and any deviance to this will have a significant negative impact.

**DWLP 01**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 |Development of post-16 Welsh language provision**

Ymateb gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Evidence from Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Diolch am y cais i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch ei ymchwiliad i ddatblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16.

Mae'r nodyn briffio hwn yn crynhoi ein prif negeseuon a bydd Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg), Dr Ioan Matthews, yn falch i ymhelaethu ac ateb cwestiynau yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Ebrill 2024.

Tystiolaeth y Coleg (598 gair)

1. Strategaeth ôl-16 Cymraeg a dwyieithog

Yn dilyn adolygiad yn 2017, rhoddwyd gyfrifoldeb i'r Coleg dros y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y sector ôl-16. Yn 2019 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, sy'n targedu *pawb* yn y sector beth bynnag eu sgiliau Cymraeg (ceir crynodeb yma).

Dengys y tabl islaw y cynnydd ers 2017-18:

Tabl 1 – Gweithgareddau dysgu gydag o leiaf elfen o Gymraeg

| Blwyddyn | Addysg bellach | Dysgu yn y gweithle |
|---|---|---|
| 2017/18 | 9.6% | 13.4% |
| 2018/19 | 11.9% | 15.4% |
| 2019/20 | 11.8% | 14.6% |

| | | |
|---|---|---|
| 2020/21 | 14.7% | 20.8% |
| 2021/22 | 18.2% | 25.3% |

**Ffynhonnell:** https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-adroddiadau-blynyddol

Tra'n cydnabod yr heriau sylweddol sy'n perthyn i ddata ôl-16 Cymraeg, rydym yn falch o'r cynnydd hyd yma ac o'r cydweithio parod rhwng y Coleg, y colegau, darparwyr prentisiaethau a chyrff megis ColegauCymru, NTfW a Cymwysterau Cymru.

2. Cyllid ôl-16 Cymraeg a dwyieithog ac effaith y cyllid hwnnw

Yn sgil y Cytundeb Cydweithio cynyddwyd cyllideb ôl-16 y Coleg:

- 2022-23: £1.5m
- 2023-24: £2.825

O ganlyniad buddsoddwyd yn y prosiectau canlynol:

- Penodwyd 62 ymarferydd addysg bellach a cyllidwyd Coleg Gŵyr Abertawe a Chaerdydd a'r Fro i ddatblygu Prosiectau Cymorth Addysgwyr.
- Penodwyd 21 asesydd prentisiaethau a cefnogwyd is-adeiledd prentisiaethau yn ACT ac yng Ngrŵp NPTC.
- Darparwyd grantiau hyrwyddo i'r darparwyr a noddwyd gwobrau i brentisiaid a dysgwyr.

Roedd ymrwymiad pellach yn y Cytundeb Cydweithio i ddarparu £840,000 ychwanegol yn 2024-25 ond cadarnhawyd yn mis Ionawr na fyddai'r Coleg yn derbyn yr arian ychwanegol. Cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen yn mis Chwefror yn nodi ymrwymiad i ail-broffilio'r cynnydd yn 2025-26.

Mae cyllideb fflat yn 2024-25 yn caniatáu i'r Coleg gynnal y prosiectau uwchlaw ond ni fydd modd ymestyn a chefnogi gweithgareddau newydd e.e:

- Ehangu yn y meysydd Iechyd a Gofal a Gofal Plant ble mae prinder gweithwyr dwyieithog.
- Datblygu darpariaeth Adeiladwaith ym mhob coleg.

- Penodi aseswyr prentisiaethau tu hwnt i'r meysydd sydd eisoes yn derbyn cefnogaeth.
- Cynnal cynhadledd i staff y sectorau.

3. Argymhellion y Coleg

Wrth ymateb i bedwerydd cwestiwn y Pwyllgor:

"Deall sut y bydd penderfyniadau ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 yn effeithio ar lwybr a thargedau Cymraeg 2050"

rhaid ystyried y darlun ehangach a'r newidiadau, a'r cyfleoedd, fydd yn dod yn sgil sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY).

Mae'r Ddeddf Addysg Drydyddol yn gosod dyletswyddau strategol ar CADY parthed y Gymraeg. Dynodwyd y Coleg i gynghori'r Comisiwn ar y dyletswyddau hyn. Mae datganiad o flaenoriaethau strategol y Llywodraeth wedi'i gyhoeddi hefyd ac yn rhoi pwyslais amlwg ar y Gymraeg. Lansiwyd y Cynllun Gweithredu gwreiddiol bum mlynedd yn ôl felly mae'n amserol ei adolygu er mwyn codi disgwyliadau dros y cyfnod nesaf.

Ceir amlinelliad islaw o'n hargymhellion cychwynnol. Bwriedir eu datblygu dros y misoedd nesaf wrth i'r Coleg ymgymryd â'i rôl statudol i gynghori CADY:

- CADY - Rhaid i CADY weithredu ei ddyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg yn llawn a defnyddio'i rym fel cyllidwr a rheoleiddiwr i sicrhau, mewn cydweithrediad â'r Coleg, bod darparwyr ôl-16 yn datblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog sy'n addas ac ar gael i *bawb*.
- Data – Dylai CADY gynnal adolygiad o ddata ôl-16 Cymraeg a dwyieithog. Dylid gosod targedau heriol ar y darparwyr a mesur eu cyrhaeddiad mewn modd ystyrlon. Dylai hyn gydblethu gyda'r Bil Addysg Gymraeg a'r Taflwybr.
- Cyllid – Dylid cynnal adolygiad o'r modd y cyllidir addysg ôl-16 Cymraeg a dwyieithog er mwyn sicrhau bod yr ***holl*** ddarparwyr yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu a chynnal darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar lefel addas sy'n gyson gydag uchelgais y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg a Strategaeth 2050.

- Cymwysterau – Dylid gweithredu argymhellion adroddiad Sharron Lusher o ran cynyddu'r nifer o gymwysterau galwedigaethol Cymraeg sydd ar gael.

**DWLP07**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol** | **Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Datblygu’r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 |Development of post-16 Welsh language provision**

Ymateb gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Evidence from The National Centre for Learning Welsh

Derbyniodd Y Ganolfan cyllid ychwanegol yn Ebrill 2022 ar gyfer ymestyn ei ddarpariaeth i bobl ifanc 16-25 oed. Yn sgil y gwaith hwn llwyddwyd i ddenu 1,150 o bobl ifanc yn ystod 2022 -23 a 2,593 o bobl ifanc yn ystod 2023-24. Roedd hyn drwy ddatblygu amrywiaeth o brosiectau a phartneriaethau newydd gan gynnwys Colegau Addysg Bellach, Dug Caeredin ac Ysgolion. Mae pwyslais y cyfleoedd hyn oll ar ddatblygu sgiliau a hyder i siarad y Gymraeg.

Roedd y gwaith hwn uwchlaw gwaith arferol y Ganolfan, sydd bellach yn darparu gwasanaethau dysgu Cymraeg i ystod o gynulleidfaoedd, gan gynnwys dysgwyr yn y gymuned, yn y gweithle, mewn teuluoedd ayb. Mae’r galw am wasanaethau dysgu Cymraeg yn uchel, ac wedi cynyddu dros y blynyddoedd, dyn ni’n dysgu mwy o bobl nag erioed, ond yr her yw parhau i ymateb i’r galw pan nad yw’r cyllid yn cynyddu. Mae data y Ganolfan ar gyfer 2022-23 yn dangos cynnydd 11% yn niferoedd y dysgwyr, gyda nifer y dysgwyr ifanc 9% yn uwch na’r flwyddyn flaenorol. Dyma’r math o dwf sy’n bosib gyda buddsoddiad ariannol.

Dyn ni’n gweithio’n arloesol ac yn greadigol, ac wedi cyflwyno ystod newydd o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg gan gynnwys dysgu’n rhithiol a hunan-ddysgu, mae nifer uchel o adnoddau digidol ar gael i gefnogi’r dysgu hefyd. Pwrpas hyn yw cyrraedd mwy o bobl i ddysgu Cymraeg ac wrth gwrs, mae gweld cynnydd yn y galw a niferoedd y dysgwyr yn rhywbeth i ddathlu ond her y Ganolfan yw gallu ymestyn ei wasanaethau i gynulleidfaoedd cynyddol a parhau i gynyddu’r niferoedd sy’n dysgu Cymraeg.

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu'r dyraniad ychwanegol ar gyfer y Ganolfan ar gyfer 2024-25 yn golygu nad oes modd i ni ymestyn y gwaith ymhellach ond gallwn anelu i gynnal lefel bresennol y gwasanaeth.

Mae’r gynulleidfa ôl-16 mor bwysig, ac mae’r Ganolfan yn gwybod ein bod yn gallu cyrraedd pobl ifanc a’u denu i ddysgu Cymraeg. Mae ein cynlluniau yn cynnwys nifer o bartneriaethau sy’n galluogi pobl ifanc i ddysgu Cymraeg ochr yn ochr neu fel rhan o’u hyfforddiant. Er enghraifft mae cynlluniau gyda phrentisiaid ble mae 120 awr o ddysgu Cymraeg (sydd gyfwerth ag un lefel gyfan) wedi eu hymgorffori i’r cwrs. Dyn ni hefyd wedi cynnal peilot llwyddiannus gyda Choleg Addysg Bellach ble derbyniodd 400 o bobl ifanc wersi Cymraeg yn ymwneud yn benodol â’u hastudiaethau galwedigaethol. Mae gennym hefyd gynlluniau ar waith gyda Phrifysgolion i ymgorffori elfennau o ddysgu Cymraeg i gyrsiau ôl-raddedig. Mae hynny’n cynnwys Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a Cwrs Gradd Astudiaethau Plentyndod. Mae hyn oll wedi ei alluogi gyda’r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd i ymestyn ein gwasanaethau i bobl ifanc.

Mae galw am wasanaethau dysgu Cymraeg yn uchel, a chynnydd yn y niferoedd sy’n dysgu bob blwyddyn ers i’r Ganolfan gael ei sefydlu. Mae niferoedd y bobl ifanc ôl-16 sy’n dysgu Cymraeg yn uwch ers i’r Ganolfan dderbyn cyllid ychwanegol i ddarparu gwasanaethau i’r gynulleidfa hon. Mae hyn yn profi, gyda buddsoddiad, gall y Ganolfan gyfrannu’n sylweddol at dargedau Cymraeg 2050.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

7 Mawrth 2024

Delyth Jewell AS,
Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Annwyl Delyth

**Parthed: Cymorth pontio'r Adolygiad Buddsoddi**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Chwefror ynglŷn â'r uchod. Rwyf wedi ateb isod bob un o'ch cwestiynau.

1. **Faint o arian y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i ddyrannu ar gyfer arian pontio?**

   Rydym wedi cyhoeddi ein Cymorth Pontio i Sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru. Mae'n rhoi cyngor am faint y gall sefydliad cymwys ymgeisio amdano. Wrth ystyried hyn a nifer y sefydliadau sy'n gymwys i gael cymorth, rydym wedi dyrannu cyllideb o £660,000.

2. **Faint o geisiadau sydd wedi'u gwneud am arian pontio?**

   Mae swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda'r holl sefydliadau cymwys. Hyd yn hyn, rydym wedi derbyn 2 gais am arian pontio a'r ddau wedi'u cymeradwyo. Y dyddiad cau ymgeisio yw 31 Mawrth 2024.

3. **Beth yw'r "cyngor a'r arbenigedd ychwanegol a phenodol"?**

   Mae hyn yn cyfeirio at gael cyngor allanol lle bo'n briodol i anghenion y sefydliad, yn ogystal â chyngor gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau. Bydd y cyngor yn cynorthwyo'r sefydliadau i ddadansoddi pethau'n ddiagnostig i ffocysu eu cais am arian pontio yn y ffordd orau.

4. **Faint o geisiadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer cyngor o'r fath?**

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn: 03301 242733
Ffacs: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Gwefan: www.celf.cymru

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
FFÔN: 03301 242733
Ffacs: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Gwefan www.arts.wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Swyddfeydd Lleol/Local Offices:
Caerdydd/Cardiff, Bae Colwyn/Colwyn Bay, Caerfyrddin/Carmarthen
Rhif Rhif Elusen Gofrestredig/Rhif Elusen Gofrestredig/Rhif Elusen Gofrestredig:
1034245

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi.
Rydym yn croesawu gohebiaethau yn Gymraeg a Saesneg, ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Hyd yn hyn, mae 3 sefydliad wedi gofyn am y cyngor ac ar hyn o bryd maent yn ei drafod gydag ymgynghorydd.

5. **Pryd bydd penderfyniadau'n digwydd ar geisiadau am arian pontio?**

   Rydym yn ystyried ceisiadau a phenderfynu arnynt wrth iddynt ein cyrraedd. Mae'r ddau gais a gawsom hyd yma eisoes wedi'u cymeradwyo a dyfarnwyd arian iddynt. Mae gan sefydliadau hyd at 31 Mawrth 2024 i ymgeisio.

6. **Pryd bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael arian pontio?**

   Mae'r arian ar gael i'r ymgeisydd yn syth ar ôl cymeradwyo ei gais. Wrth gwrs, bydd gan sefydliadau eu gofynion penodol. Felly, bydd arian yn cael ei dalu ar y pryd sy'n fwyaf priodol i'r ymgeisydd yn ôl y wybodaeth sydd yn ei gais.

Rydym yn cynnal trafodaethau gyda phob un o'r 9 sefydliad sy'n gymwys i gael cymorth pontio.

Gobeithio y bydd y wybodaeth yma'n ateb eich cwestiynau. Rhowch wybod imi os gallaf gynnig unrhyw gymorth pellach.

Yn gywir

Dafydd Rhys

**Dafydd Rhys**
**Prif Weithredwr**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Eitem 4.2

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/FM/0609/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Mawrth 2024

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), a osodwyd mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ('y Bil') ar 26 Ionawr.

Rwyf wedi pwyso a mesur y casgliadau yn eich adroddiad ac mae fy ymateb wedi'i nodi isod. Sylwch, lle rwyf wedi defnyddio cyfeiriadau at gymalau o'r Bil, mae'r rhain yn gyson â'r fersiwn ddiweddaraf, fel y daethpwyd o Dŷ'r Cyffredin, dyddiedig 6 Rhagfyr.

**Cydsyniad deddfwriaethol**

Rwy'n falch bod y Pwyllgor o'r farn bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau yng Nghynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o dan Reol Sefydlog 29, ac felly'n gofyn am gydsyniad y Senedd.

Nodaf fod y Pwyllgor yn dal o'r farn nad yw cymalau 74 a 78 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd), a hefyd gwelliannau 79 ac 80 sy'n ymwneud â'r cymalau hynny, yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, rwyf yn dal o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, i'r graddau y mae'r cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes.

Yn wir, ar 6 Chwefror ysgrifennodd Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am eu dadansoddiad eu hunain o ran datganoli ar y Rhan hon o'r Bil. Yn flaenorol, roeddent o'r farn bod darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil wedi'u cadw'n ôl o dan y mater a gedwir yn ôl ar gyfer gwasanaethau rhyngrwyd, ac felly nad oedd angen cydsyniad y Senedd. Roedd ei llythyr yn nodi y dylid ceisio cydsyniad dan Ganllawiau ar Ddatganoli Cymru wrth gyflwyno neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. Ychwanegodd, o ganlyniad, er bod Llywodraeth y DU yn credu bod y swyddogaethau hyn wedi'u cadw'n ôl, fod Llywodraeth y DU o'r farn yn awr y dylid ceisio cytundeb ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodaf hefyd farn y Pwyllgor y bydd y gwelliannau i'r Bil sy'n ymwneud â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cytunaf â'r casgliad hwn, a byddwch wedi gweld fy mod wedi tynnu sylw at bryderon yn ymwneud â'r polisi cyfansoddiadol ym mharagraff 22 yng Nghynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 ynghylch pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (i'r graddau y maent yn ymarferadwy mewn perthynas â Chymru) yn cael eu trosglwyddo oddi wrth Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Ansawdd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol**

Gosodwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mor agos â phosibl at y cyfnod o bythefnos sy'n ofynnol dan Reol Sefydlog 29.2, a oedd yn cynnwys dadansoddi nifer sylweddol o welliannau mewn cyfnod byr gyda'r bwriad o alluogi craffu amserol. Nodaf bryderon y Pwyllgor ac rwy'n dal wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei chyflawni'n effeithlon.

Mae tensiwn clir rhwng cyfnod o bythefnos a'r gallu i ddarparu gwybodaeth fanwl. Rwy'n ymwybodol o farn feirniadol y Pwyllgor am yr achlysuron hyn pan fydd Llywodraeth Cymru wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod o bythefnos i ddatblygu ymateb manylach.

**Cymalau penodol y Bil, materion y mae dal angen eu trafod, a dynameg rhwng y DU-UE**

Nodaf fod gweddill adroddiad y Pwyllgor yn darparu sylwadau ynghylch cymalau penodol o'r Bil, materion y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried y mae dal angen eu trafod o'r adroddiad cyntaf, yn ogystal â'r ddeinameg rhwng y DU a'r UE. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi cyfres o argymhellion cysylltiedig, ac mae fy ymateb i bob un o'r rhain isod:

**Argymhelliad 1** - Yn unol ag argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai'r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Bil.

**Ymateb:**
Mae cymal 74 yn sefydlu porth gwybodaeth newydd ac yn creu pŵer caniataol i awdurdodau cyhoeddus rannu gwybodaeth gyda darparwyr cofrestredig er mwyn darparu gwasanaethau dilysu digidol. Mae cymal 78 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi Cod Ymarfer y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus, sy'n penderfynu rhannu gwybodaeth o dan gymal 74, roi sylw dyledus iddo.

Yn ôl Llywodraeth y DU, bydd y Cod hwn yn darparu gwybodaeth am y camau angenrheidiol y dylai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd wrth rannu data drwy'r porth gwybodaeth. Bydd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol ac yn nodi arferion gorau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys canllawiau ymarferol ar y broses y dylai awdurdodau cyhoeddus ei dilyn wrth rannu gwybodaeth.

Byddai Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan yn berthnasol i bob corff cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys y rheini yng Nghymru.

Mae fy swyddogion yn dal i fod mewn trafodaethau gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau datganoledig y darpariaethau hyn.

Ar ôl i'r trafodaethau hyn ddod i ben, bydd diweddariad ar y canlyniad yn cael ei ddarparu drwy'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.


| |
|---|
| **Argymhelliad 2.** Yn unol ag argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai'r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau i wneud rheoliadau yn Rhan 3 o'r Bil.<br><br>**Ymateb:**<br>Mae Rhan 3, cymalau 85-107 (cymalau 61-77 fel y'u cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wella cluadadwyedd data (Data Clyfar). Mae'r cymalau hyn yn caniatáu ar gyfer rhannu data'n ddiogel, ar gais y cwsmer, gyda darparwyr trydydd parti awdurdodedig (ATP). Byddai'r rhain wedyn yn defnyddio'r data i ddarparu gwasanaethau i'r cwsmer, gan gynnwys newid cyfrif yn awtomatig, cymharu'r farchnad yn benodol i'r cwsmer, a gwasanaethau rheoli cyfrifon. Gall y cwsmer fod yn ddefnyddiwr neu'n fusnes.<br><br>Mae'r cymalau yn Rhan 3 yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys i fynnu bod cyflenwyr (fel y nodir yn y rheoliadau), a phersonau perthnasol eraill, yn rhannu data cwsmeriaid a data busnesau, i gyflwyno cynlluniau Data Clyfar mewn marchnadoedd ar draws yr economi.<br><br>Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, byddai darpariaethau yn Rhan 3 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau a fyddai'n berthnasol i ddarparu cynlluniau Data Clyfar yng Nghymru. Mae hwn yn faes lle mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cytuno bod pwnc datganoledig yn rhan ohono. |
| **Argymhelliad 3.** O ystyried y "pryderon polisi cyfansoddiadol" ynghylch darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol yn y Bil ac yn benodol dychwelyd pwerau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 (i'r graddau y maent yn ymarferadwy o ran Cymru), dylai'r Prif Weinidog uwchgyfeirio'r mater hwn i drafodaethau ar lefel Weinidogol, hyd at a chan gynnwys y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer datrys anghydfodau, yn hytrach na thrafodaethau ar lefel swyddogol.<br><br>**Ymateb:**<br>Ysgrifennais at Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol ar 23 Ionawr, yn nodi ein pryderon ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol ar bwerau Gweinidogion Cymru. |
| **Argymhelliad 4.** Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – ar lefel swyddogol a Gweinidogol – mewn cysylltiad â'r darpariaethau ar gyfer y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.<br><br>**Ymateb:**<br>Bydd diweddariad ar ganlyniad y trafodaethau hyn yn cael ei ddarparu drwy broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai'r Prif Weinidog roi manylion inni am unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai eu cymryd i unioni'r trosglwyddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy welliant NC42 o bwerau dirprwyedig presennol yn adran 79 o Ddeddf 1991, sydd ar hyn o bryd yn ymarferadwy gan Weinidogion Cymru (i'r graddau y maent yn ymarferadwy o ran Cymru). Dylai manylion o'r fath gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ail-ddirprwyo i Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol. |

| |
|---|
| **Ymateb:**<br>Mae cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer pwnc Rhan 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 wedi'i ddatganoli i Gymru. Fel y gŵyr y Senedd, bydd y fersiwn bresennol o'r Bil (o dan gymal 141, gwelliant NC42 yn flaenorol) yn trosglwyddo swyddogaethau gweithredol presennol Gweinidogion Cymru yn y maes hwn fel mai dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig fydd yn gallu eu hymarfer mewn perthynas â Chymru a Lloegr.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ail-ddirprwyo i Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 (sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol). Yn y senario hwnnw, gan y byddai darpariaeth o'r fath yn addasu un o swyddogaethau un o Weinidogion y Goron, byddai angen i Weinidogion Cymru ymgynghori â Gweinidog priodol y DU (o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). |
| **Argymhelliad 6.** Yn unol ag argymhelliad 3 yn ein hadroddiad cyntaf, byddem yn croesawu ymrwymiad gan y Prif Weinidog, pan na fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i weithredu cytundebau rhyngwladol, a bod pwerau yn y Bil i wneud hynny'n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn lle hynny, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu esboniad manwl mewn unrhyw ddiweddariad i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.<br><br>**Ymateb:**<br>Os bydd hyn yn digwydd, bydd y Senedd yn cael ei diweddaru o unrhyw bwerau sy'n cael eu harfer mewn meysydd datganoledig drwy'r broses arferol. |
| **Argymhelliad 7.** Yn unol ag argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai'r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o ddarpariaethau'r Bil mewn cysylltiad â hysbysiadau cyfweliadau.<br><br>**Ymateb:**<br>Mae Cymal 41 Hysbysiadau Cyfweliadau (cymal 38 fel y'i cyflwynwyd) yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Diogelu Data 2018 sy'n rhoi pwerau i'r Comisiynydd Gwybodaeth fynnu bod rhai pobl yn dod i gyfweliad, lle mae amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â gofynion penodol Deddf Diogelu Data 2018.<br><br>Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys esemptiad ar gyfer y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (OfSTED). Fodd bynnag, nid oes esemptiad tebyg wedi'i ddarparu ar gyfer Gweinidogion Cymru, fel rheoleiddiwr y gwasanaethau cyfatebol yma yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel sydd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn gallu cyhoeddi hysbysiad cyfweliad ar y materion hyn yng Nghymru, ond nid yn Lloegr. Mae hyn yn dal i gael ei drafod ar hyn o bryd.<br><br>Bydd diweddariad ar ganlyniad y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cymal hwn yn cael ei ddarparu maes o law drwy broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. |
| **Argymhelliad 8.** Dylai'r Prif Weinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru wedi cael gan Lywodraeth y DU ei hasesiad risg ar y Bil ac ar golli penderfyniad digonolrwydd presennol y DU. Os yw wedi dod i law ac os yw'r telerau rhannu yn caniatáu, dylid rhannu'r asesiad risg â'r Senedd.<br><br>**Ymateb:**<br>Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael copi o asesiad risg Llywodraeth y DU ar effaith |

| |
|---|
| bosibl y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ar benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data. Ar 1 Mawrth, ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol ataf, gan wrthod ein cais unwaith eto am gopi o asesiad risg Llywodraeth y DU, gan ddweud ei bod yn bwysig bod swyddogion Llywodraeth y DU yn gallu cynnal trafodaethau gonest yn ystod y broses o lunio polisïau. |
| **Argymhelliad 9.** Dylai'r Prif Weinidog egluro a oes amgylchiadau lle byddai Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil er gwaethaf ei phryderon ynghylch y goblygiadau ar gyfer penderfyniad digonolrwydd presennol y DU.<br><br>**Ymateb:**<br>Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, mae ein hargymhellion yn seiliedig ar egwyddorion sy'n cydnabod y gallai fod amgylchiadau synhwyrol a manteisiol i ddarpariaeth gael ei gwneud mewn Bil y DU ar gyfer Cymru.  Bydd ein safbwynt terfynol yn cynnwys, fel arfer, ystyried ystod o ffactorau cyfansoddiadol, gwleidyddol, polisïau, a ffactorau eraill. Mae ein hegwyddorion yn cael eu rhoi ar waith yng nghyd-destun trafodaethau sy'n aml yn gymhleth ac yn gyfnewidiol.  Rhaid pwyso a mesur gwahanol ffactorau yn yr ymdrech i sicrhau ein hamcanion polisi. |
| **Argymhelliad 10.** Dylai'r Prif Weinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau ar lefel y DU a'r UE am y Bil, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniad digonolrwydd presennol y DU.<br><br>**Ymateb:**<br>Yn ei llythyr ar 1 Mawrth, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol fod Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ers dechrau proses ymgynghori'r Bil. Fodd bynnag, gan nad yw digonolrwydd wedi'i ddatganoli, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hyn. |

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Cwnsler Cyffredinol. Bydd copi hefyd yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

15 Mawrth 2024

Annwyl Mark

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2024, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 11 Mawrth, yn ymateb i'n hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (adroddiad ar Femorandwm Rhif 3). Rydym yn croesawu'r ymatebion yr ydych wedi'u darparu i'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3.

Bydd y llythyr hwn yn eich cyrraedd ychydig cyn eich ymddiswyddiad arfaethedig fel Prif Weinidog Cymru. Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch ichi am eich ymgysylltiad â'r Pwyllgor mewn perthynas â'r materion arwyddocaol a phwysig sy'n dod o fewn ein priod gyfrifoldebau.

Mae eich llythyr yn codi nifer o faterion y byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o eglurder a manylion yn eu cylch. O'r herwydd, edrychwn ymlaen at gael ymateb gan eich olynydd i'r cwestiynau yn yr Atodiad cyn gynted â phosibl ac mewn da bryd i'n cynorthwyo i ystyried unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach ar gyfer y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

Cwestiwn 1. O ran cydsyniad deddfwriaethol, hyd yma rydym wedi bod â safbwyntiau gwrthgyferbyniol ynghylch a yw diben cymalau 74 a 78 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd) sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r graddau y mae'r cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes. Gwnaethoch nodi hefyd:

> *"Yn wir, ar 6 Chwefror ysgrifennodd Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am eu dadansoddiad eu hunain o ran datganoli ar y Rhan hon o'r Bil. Yn flaenorol, roeddent o'r farn bod darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil wedi'u cadw'n ôl o dan y mater a gedwir yn ôl ar gyfer gwasanaethau rhyngrwyd, ac felly nad oedd angen cydsyniad y Senedd. Roedd ei llythyr yn nodi y dylid ceisio cydsyniad dan Ganllawiau ar Ddatganoli Cymru wrth gyflwyno neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. Ychwanegodd, o ganlyniad, er bod Llywodraeth y DU yn credu bod y swyddogaethau hyn wedi'u cadw'n ôl, fod Llywodraeth y DU o'r farn yn awr y dylid ceisio cytundeb ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).*

a) A fyddech cystal â rhannu â ni yr ohebiaeth a ddaeth i law ar 6 Chwefror 2024 gan Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol.

Mae eich llythyr yn tynnu sylw at farn barhaus Llywodraeth y DU bod cymalau 74 a 78 wedi'u cadw'n ôl. Fodd bynnag, rydych hefyd yn egluro mai Nodyn Canllaw Llywodraeth y DU ar Ddatganoli, **Deddfwriaeth Sylfaenol Seneddol a Chynulliad sy'n effeithio ar Gymru**, sy'n cynnwys gofyniad i geisio cydsyniad pan fo darpariaethau mewn Bil yn rhoi neu'n gosod swyddogaethau *wedi'u cadw'n ôl* ar awdurdod datganoledig yng Nghymru. Ymddengys bod hwn yn ofyniad gwahanol i gonfensiwn Sewel, sy'n cydnabod na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â Chymru o ran materion *datganoledig*. Mae hefyd yn wahanol i ofynion Rheolau Sefydlog y Senedd, yn benodol Rheolau Sefydlog 29.1 sy'n nodi bod yn rhaid i "[F]il perthnasol", at ddiben defnyddio Rheol Sefydlog 29, wneud darpariaeth at unrhyw ddiben "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd" (neu addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).

b) Byddem yn croesawu eich barn ar y gwahanol feini prawf a dulliau gweithredu y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu cymhwyso gan Reolau Sefydlog Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth asesu a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ddarpariaethau Bil.

Cwestiwn 2. Mae argymhelliad 2 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3 yn ailadrodd argymhelliad a wnaethom yn flaenorol yn ein hadroddiad cyntaf, y dylem gael asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 3 o'r Bil. Er ein bod yn cydnabod bod yr ymateb a ddarparwyd yn rhoi eglurhad ffeithiol o'r pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 3, nid

ydym yn ystyried ei fod yn darparu asesiad o'u goblygiadau datganoledig. A fyddech cystal â darparu manylion am unrhyw oblygiadau datganoledig o ran y pwerau gwneud rheoliadau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys yn Rhan 3 o'r Bil.

Cwestiwn 3. Mewn ymateb i argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, o ran eich "[p]ryderon yn ymwneud â'r polisi cyfansoddiadol" gyda darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR) yn y Bil, rydych yn datgan ichi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol ar 23 Ionawr 2024 yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau NUAR ar bwerau Gweinidogion Cymru.

a) A fyddech cystal â rhannu â ni yr ohebiaeth a anfonwyd ar 23 Ionawr 2024 at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol.

b) Yn ei llythyr ar 6 Chwefror 2024, a wnaeth y Gweinidog Gwladol roi sylw i bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch darpariaethau NUAR? Os na, a roddwyd sylw i'r pryderon mewn gohebiaeth ddilynol (h.y. y llythyr ar 1 Mawrth 2024 y cyfeirir ato yn yr ymatebion i argymhellion 8 a 10) neu a yw Llywodraeth Cymru yn dal i aros am ymateb ar y mater hwn?

Cwestiwn 4. Mewn ymateb i argymhelliad 8 ac argymhelliad 10 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, rydych yn cyfeirio at yr ohebiaeth a ddaeth i law gan y Gweinidog Gwladol ar 1 Mawrth 2024 mewn perthynas â Llywodraeth y DU yn gwrthod rhannu copi o'i hasesiad risg â Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl y Bil ar benderfyniad y DU ar ddigonolrwydd data'r UE, ac mewn perthynas ag ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r Comisiwn Ewropeaidd ar y Bil. A fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a ddaeth i law ar 1 Mawrth 2024 gyda ni.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julia Lopez AS
Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol

15 Mawrth 2024

Annwyl Julia

Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Yn ein cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mawrth 2024 gwnaethom drafod llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2024 gan y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru, lle mae'n ymateb i adroddiad fy Mhwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (adroddiad ar Femorandwm Rhif 3).

Mae'r llythyr yn codi nifer o faterion y byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o eglurder yn eu cylch. Byddai unrhyw fanylion y byddech yn gallu eu darparu yn ddefnyddiol iawn i'm Pwyllgor wrth inni ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil. O ystyried bod ein gwaith yn amser-gritigol ac yn gysylltiedig â thaith y Bil drwy Senedd y DU, byddem yn croesawu ymateb erbyn 25 Ebrill 2024.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

**Cwestiwn 1.** O ran cydsyniad deddfwriaethol, hyd yma rydym wedi bod â safbwyntiau gwrthgyferbyniol i Lywodraeth Cymru ynghylch a yw diben cymalau 74 a 78 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd) sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn ei lythyr atom ar 8 Mawrth 2024, cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym hefyd:

> *"Yn wir, ar 6 Chwefror ysgrifennodd Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am eu dadansoddiad eu hunain o ran datganoli ar y Rhan hon o'r Bil. Yn flaenorol, roeddent o'r farn bod darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil wedi'u cadw'n ôl o dan y mater a gedwir yn ôl ar gyfer gwasanaethau rhyngrwyd, ac felly nad oedd angen cydsyniad y Senedd. Roedd ei llythyr yn nodi y dylid ceisio cydsyniad dan Ganllawiau ar Ddatganoli Cymru wrth gyflwyno neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. Ychwanegodd, o ganlyniad, er bod Llywodraeth y DU yn credu bod y swyddogaethau hyn wedi'u cadw'n ôl, fod Llywodraeth y DU o'r farn yn awr y dylid ceisio cytundeb ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).*

**a)** Er mwyn ein helpu i ddeall, a fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a anfonwyd gennych at Lywodraeth Cymru ar 6 Chwefror 2024 gyda ni.

Yn ei lythyr, mae Prif Weinidog Cymru yn tynnu sylw at eich barn barhaus bod cymalau 74 a 78 wedi'u cadw'n ôl. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog hefyd yn egluro mai Nodyn Canllaw Llywodraeth y DU ar Ddatganoli, Deddfwriaeth Sylfaenol Seneddol a Chynulliad sy'n effeithio ar Gymru, sy'n cynnwys gofyniad i geisio cydsyniad pan fo darpariaethau mewn Bil yn rhoi neu'n gosod swyddogaethau *wedi'u cadw'n ôl* ar awdurdod datganoledig yng Nghymru. Ymddengys bod hwn yn ofyniad gwahanol i gonfensiwn Sewel, sy'n cydnabod na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â Chymru o ran materion *datganoledig*. Mae hefyd yn wahanol i ofynion Rheolau Sefydlog y Senedd, yn benodol Rheolau Sefydlog 29.1 sy'n nodi bod yn rhaid i "[F]il perthnasol", at ddiben defnyddio Rheol Sefydlog 29, wneud darpariaeth at unrhyw ddiben "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd" (neu addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).

**b)** Byddem yn croesawu eich barn ar y gwahanol feini prawf a dulliau gweithredu y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu cymhwyso gan Reolau Sefydlog Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth asesu a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ddarpariaethau Bil.

**Cwestiwn 2.** Mewn ymateb i argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, o ran "[p]ryderon [Llywodraeth Cymru] yn ymwneud â'r polisi cyfansoddiadol" gyda darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR) yn y Bil, mae'r Prif Weinidog yn datgan yr

ysgrifennodd atoch ar 23 Ionawr 2024 yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau NUAR ar bwerau Gweinidogion Cymru. A ydych wedi ymateb i bryderon Llywodraeth Cymru ac, os felly, a fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth â ni? Os na, pryd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn ymateb i Lywodraeth Cymru?

Cwestiwn 3. Mewn ymateb i argymhelliad 8 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, dywedodd y Prif Weinidog wrthym nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael copi o asesiad risg Llywodraeth y DU ar effaith bosibl y Bil ar benderfyniad y DU ar ddigonolrwydd data'r UE a'ch bod wedi gwrthod ei rannu oherwydd ei bod yn bwysig i swyddogion Llywodraeth y DU allu cynnal trafodaethau didwyll yn ystod y broses o lunio polisïau. Byddwch yn ymwybodol y gallai fod goblygiadau i Gymru pe bai'r penderfyniad digonolrwydd yn cael ei golli. A fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a anfonwyd gennych at Brif Weinidog Cymru ar 1 Mawrth 2024 gyda ni a/neu egluro ymhellach eich penderfyniad i beidio â rhannu eich asesiad risg â Llywodraeth Cymru.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Gweinidog yr Economi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: 2024-03-01 IMG 06 Mawrth 24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

12 Mawrth 2024

Annwyl Huw

Yn dilyn fy llythyr a anfonwyd atoch ar 4 Mawrth 2024, ysgrifennaf atoch i'ch diweddaru ynghylch chweched cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE (IMG), a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2024.

Byddaf yn mynychu ar ran Llywodraeth Cymru. Amlinellir crynodeb o'r trafodaethau yn y Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE – 06 Mawrth 2024 (12 Mawrth 2024) | LLYW.CYMRU atodedig sydd wedi'i anfon at yr Aelodau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Gweinidog yr Economi

CC:

Delyth Jewell, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**From:** Jamie Medhurst [jsm] (Staff)
**Sent:** Friday, March 8, 2024 7:55 AM
**To:** Jewell, Delyth (Aelod o'r Senedd | Member of the Senedd) <Delyth.Jewell@senedd.wales>
**Subject:** Fw: TORIADAU I'R SECTOR DDIWYLLIANT

Annwyl Delyth

Rown i am anfon hwn atat, er gwybodaeth, fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd.

Cofion gorau

Jamie

---

**From:** Jamie Medhurst [jsm] (Staff)
**Sent:** 07 March 2024 14:05
**To:** Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales <Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales>
**Cc:** Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales <Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales>
**Subject:** TORIADAU I'R SECTOR DDIWYLLIANT

Annwyl Brif Weinidog

Ysgrifennaf atoch fel defnyddiwr cyson y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ers dros 35 mlynedd a hefyd fel Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol Academaidd Archif Ddarlledu Cymru sydd wedi ei lleoli yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Rwy'n cydnabod ein bod yn byw mewn amseroedd anodd yn ariannol, ond rwyf hefyd yn bryderus iawn i weld toriadau fydd yn effeithio ar ein sefydliadau diwylliannol - sefydliadau sydd â nod clir o warchod, curadu, a gofalu ar ôl ein hetifeddiaeth unigryw ni yng Nghymru - mewn print ac ar ffurf aml-gyfrwng. Mae'r toriadau yn rhai fach iawn, iawn o fewn cyllideb lawn y Llywodraeth, ond mae'r effaith ar y sefydliadau unigol yn mynd i fod yn andwyol. Fe fydd colli swyddi (ac yn hynny colli profiad proffesiynol a gwybodaeth sefydliadol hynod werthfawr), cwtogi ar wasanaethau i'r cyhoedd, a hyd yn oed perygl i'r casgliadau eu hunain os nad yw'r staff a'r arbenigedd yna i'w cadw a chynnal yn y ffordd iawn.

Yn y Gytundeb Gydweithio (2021), fe wnaeth y Llywodraeth a Phlaid Cymru ymrwymo i '[dd]atblygu strategaeth ddiwylliant newydd, sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru, iaith Gymraeg ffyniannus, ein sectorau diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol wrth inni weithredu'r strategaeth....' Fy ngofid i yw bod yna berygl, bellach, o fethu ar y polisi hwn yn sgil y toriadau arfaethedig.

Erfyniaf ar y Llywodraeth i ail-feddwl ac i ail-ystyried y toriadau hyn. Mae'r sefydliadau diwylliannol hyn dan straen eisoes - fe fydd toriadau pellach yn gwneud pethau'n llawer gwaeth.

Yn gywir iawn

Jamie Medhurst

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Jamie Medhurst BA (Hons) MLib PhD FHEA FRHistS**
Athro Ffilm a'r Cyfryngau

**Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**
Adeilad Parry-Williams, Campws Penglais, Aberystwyth, SY23 3AJ, Cymru

**Ffôn:** +44 (0) 1970 622152

**Gwefan:** Proffil Staff

@jamie_medhurst

**Rhagenwau:** Hi/Ei

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

Cymraeg
Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg

**Jamie Medhurst BA (Hons) MLib PhD FHEA FRHistS**
Professor of Film and Media

**Department of Theatre, Film and Television Studies**
Parry-Williams Building, Penglais Campus, Aberystwyth, SY23 3AJ, Wales

**Phone:** +44 (0) 1970 622152

**Website:** Staff Profile

@jamie_medhurst

**Pronouns:** He/His

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
GOOD UNIVERSITY GUIDE 2024
WELSH UNIVERSITY OF THE YEAR

Cymraeg
Please write to me in Welsh or English

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

13 Mawrth 2024

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Annwyl Vaughan a Dawn,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 1 Mawrth 2024 yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor, 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25'.

**1.** Mae dwy flynedd a hanner wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i Strategaeth Ddiwylliant newydd i ymgysylltu â'r sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu, ac yn dilyn hynny, y Cytundeb Cydweithio. Nodwn yn eich ymateb fod y refeniw a ddyrannwyd i gyflawni'r Strategaeth Ddiwylliant yn 2024-2025 yn cael ei ailbwrpasu i liniaru effaith colli swyddi yn y sectorau diwylliant a threftadaeth. Er ein bod yn croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd i sicrhau cymaint o swyddi â phosibl, byddem yn croesawu amlinelliad o'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar amserlenni ar gyfer cyflawni a gweithredu'r Strategaeth Ddiwylliant hir-ddisgwyliedig.

**2.** Yn adroddiad y Pwyllgor, a gohebiaeth arall ym mis Ionawr a mis Chwefror 2024, rydym wedi codi pryderon am yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac uwchraddio sydd ei angen o amgylch ystadau Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Clywsom mewn tystiolaeth gan Amgueddfa Cymru ym mis Rhagfyr 2023 fod cyflwr presennol adeilad yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd yn peri risg wirioneddol i'n trysorau cenedlaethol a bod staff hyd yn oed wrth gefn pan fydd glaw trwm, i dynnu paentiadau oddi ar waliau i'w hamddiffyn rhag dŵr. Rydym wedi eich annog i wneud amddiffyn y casgliadau cenedlaethol yn genhadaeth drawslywodraethol ac i ddod o hyd i gyllid ychwanegol i sicrhau bod y casgliadau cenedlaethol yn cael eu diogelu'n briodol.

**3.** Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, rydym yn parhau i gael sylwadau yn mynegi pryder am effaith drychinebus y toriadau yn y gyllideb ar y sector treftadaeth a diwylliant yng Nghymru, ac ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru. Bydd hyn yn anochel yn arwain at weithlu llai a cholli gwybodaeth ac arbenigedd yn barhaol, yn ogystal â rhaglenni gwaith sydd wedi'u lleihau'n sylweddol sy'n cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

**4.** Fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod y penderfyniadau eithriadol o anodd y bu'n rhaid i chi eu gwneud ynghylch cyllideb y flwyddyn nesaf, a'r angen i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd. Os bydd unrhyw ddyraniad cyllid canlyniadol pellach gan Lywodraeth y DU yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, byddem yn argymell yn gryf y dylid rhoi ystyriaeth flaenoriaethol i'r sefydliadau hynny a chyrff hyd braich yn y sectorau diwylliant a threftadaeth, ac i fynd i'r afael â'r risgiau parhaus i'r casgliadau cenedlaethol.

Yn gywir



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

22 Mawrth 2024

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Craffu ar y gyllideb ddrafft

Byddwch yn cofio fy mod wedi ysgrifennu y llynedd yn gwahodd Pwyllgorau i fynegi barn ar welliannau y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud i'r dogfennau mae'n eu cynhyrchu ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a ddarparwyd i'r pwyllgorau.

Cafodd eich ymatebion eu hystyried gan y Pwyllgor ar 21 Mehefin 2023 ac wedi hynny ysgrifennais at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ar 23 Mehefin 2023 yn gofyn am ystyried y pryderon a godwyd cyn rownd cyllideb 2024-25. Roedd rhain yn ymwneud â'r hyn a ganlyn:

- cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn hwyr, gan arwain at broses graffu wedi'i chwtogi;
- diffyg tryloywder ynghylch effaith y gyllideb ddrafft ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor;
- ansawdd isel y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru;
- ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion i rai argymhellion gan bwyllgorau cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

Codwyd y materion hyn eto yn ystod y gwaith o drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 yn gynharach eleni. Yn ein adroddiad gwnaed yr argymhellion a'r casgliadau a ganlyn gan adeiladu ar y safbwyntiau a fynegwyd yn flaenorol:

> *Casgliad 2. Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb cyn cylch cyllideb 2025-26 i gael gwell dealltwriaeth o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Gyllideb Ddrafft ac i archwilio ffyrdd o wneud y mwyaf o waith craffu cyllidebol drwy gydol y flwyddyn*
>
> *Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi papurau tystiolaeth gweinidogion ar yr un pryd â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn rhoi eglurder ar y meini prawf a'r blaenoriaethau sy'n sail i benderfyniadau gweinidogion, gyda'r nod o alluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu yn fwy effeithiol ac yn gynharach yn y broses.*
>
> *Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell, os caiff y Gyllideb Ddrafft ei gohirio eto yn y dyfodol:*
>
> *▪ bod y Gweinidog a'r swyddogion yn parhau i fynd i sesiwn cyn craffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Cyllid; a*
>
> *▪ bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i nodi dulliau gweithredu a all wella cyfleoedd craffu, gan gynnwys darparu dogfennaeth sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft yn gynharach.*

Derbyniwyd yr argymhellion hyn mewn egwyddor, gyda'r Gweinidog yn amlygu'r anawsterau ymarferol wrth ymateb i faint o wybodaeth y gofynnir amdani gan bwyllgorau unigol, ar yr un pryd â chyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Gofynnwn felly i chi ystyried y materion canlynol, ac i ddarparu ymateb erbyn dydd Gwener 24 Mai 2024.

- Pa welliannau, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld yn y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25?
- Ydych chi wedi nodi unrhyw welliannau pellach y gellid eu gwneud i'r wybodaeth a ddarperir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft?
- O ystyried yr amser byr sydd ar gael i graffu, pa ystyriaeth, os o gwbl, ydych chi wedi'i rhoi i graffu ar faterion cyllidebol o fewn eich cylch gwaith yn gynharach, er enghraifft ystyried cynllunio strategol tymor hwy, cymryd camau dilynol o ran argymhellion craffu blaenorol neu brosesau penderfynu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi?

- Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Gweinidog a rhanddeiliaid eraill i adolygu Protocol Proses y Gyllideb i sicrhau bod prosesau cyllidebol y Senedd yn adlewyrchu arferion a ddatblygwyd yn y Chweched Senedd hyd yma. A oes gennych unrhyw farn am weithdrefnau cyllidebol y Senedd yn ehangach?

Rydym yn ddiolchgar i chi am eich ymgysylltiad parhaus â ni ar y materion hyn ac yn croesawu unrhyw ohebiaeth bellach sy'n ymateb i'r pwyntiau uchod.

Ein nod yw codi'r materion hyn ar ran y Pwyllgorau gyda'r Gweinidog cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau cyllidebol ar gyfer 2025-26 a fydd yn digwydd cyn toriad yr haf.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture & Social Justice**

Ein cyf/Our ref: MA/VG/3064/24

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu a'r Gymraeg,
Y Pwyllgor Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

04 Ebrill 2024

Annwyl Delyth

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 13 Mawrth mewn perthynas â chyllideb derfynol 2024-25 ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr. Fi sydd wedi ymateb ichi gan fod diwylliant bellach yn fy Mhortffolio i. Ynghlwm mae'r wybodaeth arall y gwnaethoch ofyn amdani er mwyn llywio eich gwaith craffu parhaus ar y gyllideb .

**Strategaeth Ddiwylliant**

Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag Aelod Dynodedig Plaid Cymru, yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyhoeddi'r Strategaeth Ddiwylliant, sy'n rhan o'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen ystyried y Strategaeth yng nghyd-destun yr heriau ariannol presennol a'r effeithiau maent yn eu cael ar ein sectorau. Cytunwyd y dylem oedi ac ystyried effeithiau cynigion y gyllideb ar y sector, ac mae'r Strategaeth ddrafft wedi cael ei mireinio a'i symleiddio yn unol â hynny dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Ar 19 Mawrth, cyhoeddodd y cyn Ddirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ddatganiad yn nodi'r camau nesaf ar gyfer y Strategaeth[1] Ddiwylliant. Rydym yn paratoi i lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ym mis Mai, a fydd yn para am wyth wythnos. Rydym yn annog pawb sydd â diddordeb yn nyfodol diwylliant yng Nghymru i ddarllen y Strategaeth a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Credwn yn gryf mai dyma'r Strategaeth gywir ar gyfer yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'n darparu cyfeiriad strategol ar gyfer ein sectorau diwylliannol, ac yn nodi'n glir ein huchelgeisiau tymor hir, wrth nodi'r blaenoriaethau hyblyg y byddwn yn canolbwyntio arnynt i'w cyflawni.

[1] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-camau-nesaf-ar-gyfer-strategaeth-ddiwylliant-i-gymr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Blaenoriaethu gwariant i Ddiogelu'r Casgliadau Cenedlaethol.**

Rydym yn llwyr ymwybodol o'r heriau y mae Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn eu hwynebu wrth gynnal adeiladau sy'n heneiddio, heriau sy'n cael eu profi gan sefydliadau ledled y DU. Rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'n sefydliadau cenedlaethol, gan eu helpu i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu. Yn 2023–24 derbyniodd Amgueddfa Cymru £2 miliwn i fynd i'r afael â phroblemau cynnal a chadw hirdymor ac i helpu i ariannu ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru. Y flwyddyn ariannol ddiwethaf, derbyniodd y Llyfrgell Genedlaethol £500,000 ar gyfer system dân newydd i sicrhau diogelwch ei chasgliadau, ac mae'n derbyn £250,000 ar gyfer gwaith cynnal a chadw â blaenoriaeth y flwyddyn ariannol hon.

Yn ddiweddar, cyfarfu'r cyn Ddirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth â Phrif Weithredwyr a Chadeiryddion Amgueddfa Cymru, a'r Llyfrgell Genedlaethol. Rhoddwyd sicrwydd iddi fod y casgliadau cenedlaethol yn ddiogel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er bod Amgueddfa Cymru yn derbyn cyllid cyfalaf gwerth £5 miliwn y flwyddyn drwy gymorth grant, mae angen buddsoddi sylweddol i fynd i'r afael â phroblemau cynnal a chadw yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae Amgueddfa Cymru yn gweithio gyda ni i ddatblygu cynllun fel y gallwn nodi'r cymorth ariannol sydd ar gael dros y pum mlynedd nesaf. O ystyried pwysigrwydd y casgliadau a maint posibl y gwaith sydd ei angen, efallai y bydd angen cydweithredu ar draws y Llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â hyn, yn hytrach na gweithredu fel adran sengl.

**Diswyddiadau Llywodraeth Cymru mewn cyrff hyd braich**

Wrth baratoi Cyllideb 2024–25, Mae Gweinidogion wedi gwneud y dewisiadau cyllideb mwyaf llym a phoenus ers datganoli. Yn ddiweddar gwnaethom gytuno ag Aelod Dynodedig Plaid Cymru fod rhaid inni ganolbwyntio ar gefnogi swyddi yn y byrdymor a’r hirdymor. Mae cyllid y Cytundeb Cydweithredu eisoes wedi cael ei ddefnyddio at y diben hwn. Yn ogystal, rydym wedi cytuno y dylid ail-bwrpasu'r cyllid a ddyrannwyd i gyflawni'r Strategaeth Ddiwylliant i liniaru effaith colli swyddi yn Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector celfyddydau ehangach. Ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, rydym hefyd wedi dod o hyd i gyllid ychwanegol ar gyfer Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

**Cyllid Canlyniadol Pellach**

Mae ein casgliadau cenedlaethol yn rhan annatod o'n treftadaeth. Byddwn yn parhau i chwarae ein rhan i sicrhau eu bod yn ddiogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys parhau i flaenoriaethu cyllid i gyrff hyd braich er mwyn diogelu'r casgliadau cenedlaethol.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture & Social Justice**

The New Welsh Review Ltd
PO Box 170
Aberystwyth
SY23 1WZ
editor@newwelshreview.com

19 March, 2024

Dear Delyth Jewell

I am writing to correct the impressions given in the letter to yourself by Helgard Krause, Books Council of Wales CEO, dated 20 December 2023, in which she refers to broader priorities of the Council, outlined in their 5-year Strategy (2022-27) (https://llyfrau.cymru/wp-content/uploads/2021/11/Strategic-Plan-2022-2027-P.pdf). In addition, I raise a few additional broader points that I hope the Committee might consider in relation to funding decisions of Wales' book- and magazine publishing sector in the immediate and medium-term future.

In Ms Krause's letter, reference is made to incumbent funded bodies that were unsuccessful in autumn 2023's magazines franchise tender: clearly, these refer to Planet the Welsh Internationalist and ourselves, New Welsh Review. I happen to know that the editor of Planet has already written to you to raise some similar points to my own. Both myself and Planet's editor were present in the interview held by BCW for applicants for the next funding round (starting April 2024), as was (in the case of our own interview) NWR's finance and administration officer and NWR's Chair of the Board, the former National Librarian of Wales.

1. 'Incumbency'. Is Ms Krause's stated policy for BCW of 'challeng[ing] incumbency' (https://llyfrau.cymru/wp-content/uploads/2021/11/Strategic-Plan-2022-2027-P.pdf) an appropriate goal for a body set up to support what is widely acknowledged to be the fragile publishing industry of a small bilingual nation, one that is unique within the UK? Further, would the Committee consider the implications of this stated, quite radical policy, taking into account its risks and benefits in relation to the stability of the wider publishing industry in both languages? Perhaps the Committee may also wish to consider whether the idea of 'challeng[ing] incumbency', as presented in BCW's 5-year Strategy, is the most effective means of aiding diversity, considering our delicate publishing eco-system? How transparent is it for BCW to present 'incumbency' only in a negative light in the context of 'diversity', particularly since no comprehensive detailed audit has been conducted nor published recently by themselves regarding the present state of publishing clients in terms of diversity and inclusivity? I believe that there is a danger of tropes of 'diversity' and 'incumbency' being pronounced in order to hide funding decisions which would be more transparently regarded as being economic in motive.

2. 'Sustainability'. Ms Krause states in her letter: 'During the current tender round some, but not all, of the magazines, made the case that their business model was no longer sustainable. This would have remained the case even if the grant could have

been increased.’ This is (once again, as is the case with references to ‘incumbency’ outlined above) clearly directed at the two ‘incumbent’ unsuccessful applicants, ourselves and Planet. The definition set out in Ms Krause’s letter regarding ’sustainability’ is vague (and in fact conflates the notion of *economic* sustainability with *ethical* sustainability in terms of labour terms and conditions) and was not communicated to applicants during the application procedure. It also seems to be at odds with the specific requirements for non-public funded income as defined in the BCW’s own guidelines for the 2024+ franchise. Their 2024+ funding round guidelines circulated in autumn 2023 stated: ‘The grant level for general and literary magazines will be aimed towards reaching a gearing ratio of 2:1 (i.e. BCW funding would provide up to two thirds of the total income of the magazine, with at least a third of income to be generated by the magazine publishers through sales, advertising revenue, sponsorship, contribution in kind etc)’. This ‘gearing ratio’ was established following a previous rigorous, transparent consultation review (2013: https://llyfrau.cymru/wp-content/uploads/2021/01/A_Review_of_English-language_Magazines_in_Wales_-_July_2013.pdf) of funding priorities conducted by the highly esteemed Tony Bianchi. Surely BCW’s definition of [economic] ‘sustainability’ should have been defined (for applicants) in the context of that ‘gearing ratio’ (2:1) stated in their own current application guidelines? In the case of New Welsh Review, our application satisfied that very gearing ratio as well as other milestones for economic stability; how, therefore, can the impression in all honesty be given that our application suggested we were ‘unsustainable’? If BCW were basing their decision on some other definition of ‘sustainability’ (for example a body’s being housed within a financially generous larger organisation or the provision of a commercial business plan), then that was not communicated at any stage by them during the application procedure. With reference to NWR, it is absolutely not the case that we would have been, in BCW’s vague term ’no longer sustainable… even if the grant could have been increased’, and in any case how could BCW know of our intentions as they did not, at any point following their communication of their decision, open negotiations regarding any revised grant offer, either higher nor lower?

3. Ms Krause’s letter quotes, in reference to a question raised about the judgement process during application procedures for major clients: ‘Officers hold regular annual appraisal meetings with grant recipients’. But no BCW annual review-meeting took place with NWR during 2022 nor at any time in relation to the progress of the last two years of our franchise, despite frequent requests from NWR regarding the scheduling of the 2022 annual review meeting which would normally take place at the end of the year following the submission of our annual report.

4. Finally, we are concerned about what appears to be an emergent policy of communications and practice at BCW which suggests an apparently increasingly Machiavellian approach to clients. One example of this would be the failure of BCW to include NWR’s recently awarded New Audiences funded project of £15K in their 11 March 2024 announcement of this financial year’s funding projects and recipients, which was only rectified after two requests and even when rectified (https://llyfrau.cymru/wp-content/uploads/2024/03/Crynodebau-Prosiectau-

Project-Summaries-2023-24-Mawrth-2024-1.pdf), introduced an erroneous element by adding 'Parthian Books' as the project's joint originators and recipients (a partnership between Parthian and NWR did become effective from late February 2024 but was not in place when New Audiences funding was applied for or received by NWR alone, a fact which BCW was wholly aware of). It is difficult to see these obstacles and apparent errors in any other light than that we should be 'chastised' for our public campaign (small in scale) about likely levels for our funding (alongside Planet we were part of the Save Welsh Magazines Open Letter campaign on working conditions prior to our application's submission). Taken together, all this may be contributing to a climate of fear across the sector in both languages. In turn, if allowed to develop, such fear could develop into self-censorship, damaging the fundamental principle of freedom of speech. This is especially concerning in relation to magazine and website clients, whose duty it is to report without prejudice on issues of the day, whether or not they are funded by a particular body or indeed depend on that body for services such as distribution, the loss of which could be detrimental to commercial viability and indeed, economic sustainability.

I leave on a personal note. I am a former Arts Council of Wales Literature Officer with nearly forty years of experience across our magazines and book publishing sectors as editor and publisher. This includes making literary translations from Welsh to English, mentoring, offering commercial online manuscript assessment as part of the rewards in a crowdfunder, and adjudications for writer's bursary, cross-art form major grant and literary prize submissions. My editorial success stories include prizewinning authors such as Jasmine Donahaye, Kerri ní Dochartaigh, Carole Hailey, Crystal Jeans, Rachel Trezise, Richard Gwyn, Hayley Long, Tristan Hughes and Gee Williams. Moreover I have helped shape New Welsh Review as a female-led outfit both in turns of leadership and of our contributors' pool. In addition to which, I am myself neurodivergent (living with ADHD) and have pioneered articles and debate from this perspective in my pages. These factors all make any superficial use of terms of diversity by funding bodies an especially galling matter.

I acknowledge that broader global changes are at play affecting our magazine sector in particular, and also that the Welsh government has shifting priorities (which to a great degree a funding body may feel they must follow in order to retain their own funding levels and grant-giving capacity). Those technological factors, however, were addressed in a comprehensive, timely, transparent and respectful fashion by the 2013 Bianchi report, following which new clients were introduced and all of us (regardless of the current state of our websites) committed to multi-format publication and have been constantly innovating as companies since then. But frankly, the way in which myself, my immediate colleagues and my valued compatriots in the wider sector have been treated during the transition to the next funding round for magazines is nothing short of appalling, in my opinion, and I know that my views are widely shared. Both Planet and ourselves were happy to help develop the next generation of publishing staff, with a particular view to sustaining priorities of inclusivity and diversity. All we did was hope for a bit more money to help the Council achieve those aims. Now it appears that they have listened retrospectively (that is after the horses have bolted) to those arguments by offering a new franchise for a literary magazine at a level of grant which ourselves, Planet and the third incumbent magazine, Wales Arts Review, would judge ideal (although NWR in fact did only request the required capped £55K

in our application). And yet we all three have been deliberately frustrated in applying for that fund through our being allowed, indeed, it appears, encouraged to go to the wall before any such application could be possible. What a waste of home-grown talent and cultural sensitivity built over years, what a waste of public resources, what a poor handling of a transition towards a more diverse publishing sector, all of which could have been spent on publishing projects but were in fact directed towards wholly avoidable redundancy and legal costs for winding up companies or putting them to sleep, as well as placing additional pressure on the staff of the Books Council itself who suddenly had to implement the consequences of these ill-advised decisions at a time when the Council itself was facing cuts and also would appear to be facing its own staff retention issues.

I look forward to hearing whether the Committee may be interested in taking any of these points on board.

Yours sincerely



Gwen Davies
Editor, New Welsh Review
Publisher, New Welsh Rarebyte book imprint

# Eitem 4.6

Good morning

I am delighted to introduce you to Leighton Davies, who has been appointed as the new Chief Financial Officer of the Welsh Rugby Union.

Leighton will join us next month and the hugely positive contribution we expect him to make to the future of the game in Wales will be most welcome.

The media statement below will be issued this morning from 11 am and gives you further information about Leighton's background and experience.

The statement below also confirms a new Board appointment for Alison Thorne, who becomes our Senior Independent Director and gives the very best wishes of everyone at the WRU to Dan Mills, who has decided to leave his current role as interim Finance Director after completing a handover period – and does so with our best wishes and blessings.

Yours,

Abi Tierney
WRU Group CEO

Leighton Davies has been appointed Chief Financial Officer at the Welsh Rugby Union Group.
The high profile role is the first senior management appointment of new Group Chief Executive Abi Tierney's tenure.
New CEO Tierney took over from interim CEO Nigel Walker in January 2024, with Walker moving to another Executive Board post, Executive Director of Rugby, on her arrival.
Davies is currently Global Controller at Purolite, an Ecolab Company, having previously spent seven years with them as Finance Director, International Operations.
He is a Fellow of the Institute of Chartered Accountants and graduate of Cardiff University who hails originally from Crynant in the Dulais Valley.
After training as a Chartered Accountant with Ernst Young he has embarked on a varied international career spanning sectors across Chemicals, Aviation, Transportation, Media and entertainment and most recently Life Science and Bioprocessing.
Before Purolite, he worked at the BBC as a Finance Director for three years. Prior to that he held senior finance roles at GE Aviation and Network Rail.
***"This is an exciting time to be joining Welsh rugby and I'm really looking forward to the challenge, to helping get to grips with the issues affecting our clubs, the professional game and our communities and to playing my part in finding the solutions that will help the game grow to its full potential,"*** said Davies.
***"I am a finance leader with proven commercial business acumen, I will bring an ability to see and help drive the big commercial picture as well as ensuring the finance function at the Welsh Rugby Union is efficient, effective and reliable for all other parts of the business.***
***"Rugby means more to us in Wales than it does in any other nation around the globe and this is a role I will relish."***
Davies will start as Chief Financial Officer next month with interim Finance Director Dan Mills remaining in post during a handover period, after which time he intends to take a well-earned break before moving to seek new opportunities.
***"It has been vitally important for us to find the right person to fill this CFO position and, in Leighton, we have found someone who is not only passionate about the game in Wales***

***but who brings a wealth of relevant operational experience, commercial acumen and gravitas to the role,"*** said CEO Tierney.

***"Leighton joins us at a time when we are designing a new strategy for the game in Wales and his insight and expertise will be invaluable to that process, just as it will be to the business and operational management of Welsh rugby in the months and years ahead."***

Tierney added: ***"I can't let this moment pass without offering my heartfelt thanks to Dan Mills for all that he has done over the last year.***

***"He will leave Welsh rugby with the blessing and best wishes of all those who have worked with him during his time here and, equally, I know he would be welcomed back with open arms should he ever decide the time is right to return."***

In a further advancement for the governance of Welsh rugby, WRU Board member Alison Thorne has been appointed to a new position of Senior independent Director (SID).

The Board completed an interview process earlier this month and officially appointed Thorne at the Group's recent monthly meeting.

Richard Collier-Keywood, who made history when he was named as the WRU's first independent Chair in June last year, joined the new WRU Board at the same time as Thorne who was brought in as one of four new iNEDs in the summer of 2023.

***"I am delighted Alison has accepted the position of senior independent director on the WRU Board,"*** said Collier-Keywood.

***"This is a new role for the WRU but it is a vital part of good governance to have a senior independent director in place to act as a focal point for other directors as necessary to ensure that I, as chair, am accountable for my performance and behaviours. This is something that is widely regarded as best practice for a good strong Board."***

Alison is a former chair of leading equality charity Chwarae Teg. She is the Lead in Wales for Women on Boards and Chairs Barcud Housing and National Dance Company Wales.

***"We have a dynamic and diverse Board in place to govern Welsh rugby, one that has already progressed significantly in a short period of time,"*** said Thorne.

***"I see my role as one that supports the chair but also helps to hold the chair accountable and can work as a conduit between the chair and other Board members and stakeholders.***

***"We feel we have the right recipe in place in terms of the levels of expertise, different lived experience and diverse opinion available to us to make better and more meaningful decisions and we are all hopeful and optimistic about what we will be able to achieve as a result."***

The full composition of the WRU Board is:

Amanda Bennett, Richard Collier-Keywood (Chair), Claire Donovan, Chris Jones, John Manders (CGB chair), Jennifer Mathias, Jamie Roberts, Alison Thorne (SID), Abi Tierney (CEO), Malcolm Wall (Chair of PRB); Colin Wilks, Andrew Williams

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Yr Arglwydd Goldsmith CB
Cadeirydd y Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol
Tŷ'r Arglwyddi
Llundain
SW1A 0PW

25 Mawrth 2024

**Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol**

Annwyl Arglwydd Goldsmith,

Yn ddiweddar, mae ein Pwyllgor wedi bod yn trafod cynlluniau Llywodraeth y DU i gadarnhau Confensiwn UNESCO 2003 ar gyfer Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol. Rydym wedi cytuno i gadw llygad ar y broses o weithredu'r confensiwn, gan fod y confensiwn yn ymwneud â materion datganoledig sy'n dod o fewn ein cylch gwaith. Rydym yn aros yn eiddgar i weld canfyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth y DU ar gam cyntaf y broses o weithredu'r confensiwn. Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhannu'r **ymatebion** a gawsom gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cyfraniad y gweinyddiaethau datganoledig at y cynlluniau hyn, a manteision disgwyliedig y confensiwn ar gyfer y dreftadaeth ddiwylliannol yr ydym yn ei rhannu.

Rydym yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol i'r broses o sicrhau cytundebau rhyngwladol, a byddwn yn parhau i anfon copïau o ohebiaeth sy'n ymwneud â materion o ddiddordeb a rennir atoch yn y dyfodol. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deisebau**

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

23 Chwefror 2024

Annwyl Weinidog

Deiseb P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ionawr, a gafodd ei drafod fwyaf diweddar gan y Pwyllgor yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr

Yn y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu yn ôl atoch i ofyn am gadarnhad a fyddai'r Llywodraeth yn ystyried darparu cymorth dyngarol, pe bai'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC) yn lansio apêl?

Fe wnaeth yr aelodau hefyd annog y Llywodraeth i gwrdd â'r elusennau dyngarol sy'n rhan o apêl DEC yng Nghymru i weld pa gamau pellach y gellir eu cymryd.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan yn: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42609

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb ar ffurf e-bost at dîm clercio'r Pwyllgor at deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir,

Jack Sargeant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon